***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 2

## MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL A DIDDYMIADAU

### *Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (dccc 2)*

74 Yn adran 14 (dyletswyddau i lunio a chynnal cynlluniau: awdurdodau lleol), ar ôl is-adran (9) mewnosoder—

"(9A) Os yw'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddisgrifir mewn cynllun datblygu unigol yn cynnwys darpariaeth o'r math a grybwyllir yn adran 41(1) o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, ni chaiff awdurdod lleol roi cyfarwyddydau i gorff llywodraethu ysgol o dan is-adran (2)(b) neu (4) mewn perthynas â'r cynllun."